

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 22 Ionawr 2016

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 27 IONAWR 2016** am **9.30** am yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2015.

## **RHAN 2 - EITEM GYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff "12, 15" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

### **5 YSGOL MAIR RHYL – CYNLLUN ADFER ARIANNOL** (Tudalennau 13 - 18)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth yr Adain Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n darparu manylion am Gynllun Adfer Ariannol Ysgol Mair.

## **RHAN I**

### **6 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 19 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaaedig).

### **7 ADRODDIAD RHEOLI TRYSORLYS** (Tudalennau 25 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) ar swyddogaethau a gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor, ac amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth ac ar y Dangosyddion Darbodus.

### **8 ADRODDIAD HUNANWERTHUSO'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 55 - 70)

Cael cyflwyniad gan Bennaeth yr Adain Archwilio Mewnol.

### **9 RHEOLI'R FFLYD GORFFORAETHOL - ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Ystyried adroddiad llafar gan Bennaeth yr Adain Archwilio Mewnol.

### **10 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 71 - 74)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Ann Davies  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Alice Jones  
Jason McLellan

### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Stuart Davies, Alice Jones a Jason McLellan (Cadeirydd), a Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Martyn Holland a Meirick Ll. Davies yn bresennol fel arsyllwyr

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Prif Swyddog Cyllid (RW), Dirprwy Swyddog Monitro/ Cyfreithiwr (LJ), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG), Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol (CG), Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion - Uwchradd (JM), Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Hefyd yn bresennol - Pennaeth, Ysgol Mair, Y Rhyl - Stuart Plunkett a Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Mair, Y Rhyl - Gill Greenland

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Duffy

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim Datganiad o Fuddiant.

### 3 MATERION BRYD

Dim.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2015.

Tudalen 11 – Eitem 8 Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod y cyfrifon drafft wedi eu cylchredeg i aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth ac nid fel eitem ar yr agenda.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Medi 2015 fel cofnod cywir.

## **RHAN II**

Cynigwyd gan Y Cynghorydd Stuart Davies, eiliwyd gan Aelod Lleyg Paul Whitham y dylid symud yr eitemau canlynol i RAN II - Eitemau Cyfrinachol.

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd o dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 a 18, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **5 YSGOL MAIR, Y RHYL – ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd o flaen llaw) ar yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Ysgol Mair, Y Rhyl a oedd wedi derbyn graddfa sicrwydd "Isel".

Hysbysodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol y Pwyllgor bod adroddiad yr Archwiliad Mewnol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Nododd Atodiad 2 y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma wrth roi'r Cynllun Gweithredu o fewn adroddiad yr Archwiliad ar waith. Nid oedd camau gweithredu wedi eu cymryd ar bob mater yn ystod yr ymweliad gan iddo gael ei gynnal yn ystod hanner tymor. Roedd cynnydd wedi ei wneud ar nifer o faterion ac roedd angen diweddariad ar y cynllun adfer.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gennym yn ein hadroddiad yn anarferol i archwiliad ysgol, ac roedd cynnydd yn cael ei wneud i wneud y gwelliannau angenrheidiol, fel y dangosir yn Atodiad 2. Fodd bynnag, y prif bryder oedd sefyllfa ariannol yr Ysgol. Er bod cynllun adfer drafft yn ei le bellach, nid oedd hwn wedi ei gytuno arno eto ac roedd llawer o waith angen ei wneud eto, yn ogystal â thrafod ac ymgynghori cyn cytuno ar gynllun a'i roi ar waith.

O dan gynllun y Cyngor ar gyfer ariannu ysgolion, mae unrhyw ysgol mewn diffyg yn cael caniatâd i wneud cais am ddiffyg trwyddedig a dangos bod ganddynt gynllun i fod ag arian dros ben o fewn tair blynedd.

Ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio, rydym wedi cynnal cyfarfod cynnydd gyda'r Pennaeth, Cadeirydd ac Is-gadeirydd Corff Llywodraethu'r Ysgol, Aelod Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr i drafod yr adroddiad archwilio, cynllun gweithredu a'r cynnydd a wnaed wrth weithredu gwelliannau. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal ar 7 Rhagfyr 2015.

Roedd y Pennaeth yn bresennol ac eglurodd i'r Pwyllgor y camau oedd yn cael eu cymryd yn unol â chynllun adfer er mwyn gwella materion. Roedd lles y plant yn flaenoriaeth a byddai hyn yn cael ei fonitro'n ofalus.

Yn y cyswllt hwn, diolchodd y Pwyllgor i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr am fynychu'n cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

(i) *Yn nodi'r sicrwydd bod y cynllun gweithredu/adfer yn yr adroddiad yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.*

(ii) *Yn cytuno y gellir dod â'r eitem yn ôl i'r cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nesaf a gynhelir fis Ionawr er mwyn cael diweddariad ar y cynllun gweithredu/adfer.*

## **6 Y DIWEDDARAF AR Y CYNLLUN ARIANNU PREIFAT**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Ariannol adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd o flaen llaw) ar roi terfyn ar y Cytundeb Prosiect ar gyfer Neuadd y Sir yn Rhuthun ac adeiladau eraill.

Hysbyswyd Aelodau bod y Cyngor wedi dod â Chytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat Neuadd y Sir i ben am resymau ariannol a gweithredol ym mis Mai 2015.

Roedd y Cyngor llawn wedi cymeradwyo arbedion cyllideb yn 2015/2016 ar y sail y byddai'r cytundeb Menter Cyllid Preifat yn cael ei ddirwyn i ben ac y byddai rheolaeth lawn o'r asedau yn cael eu pasio ymlaen i'r Cyngor. Roedd yr adroddiad yn crynhoi crynodeb o'r penderfyniad a'r cyd-destun a amlinellodd y penderfyniad gwreiddiol i fynd i gytundeb Menter Cyllid Preifat.

Cafwyd crynodeb o'r adroddiad gan y Prif Swyddog Ariannol, oedd yn cynnwys:-

- Amlinelliad o fodel ariannol y Fenter Cyllid Preifat
- Cyfanswm cost y Cytundeb
- Dod a'r Cytundeb i ben yn golygu taliad digolledu a oedd yn y pen draw yn well gwerth am arian i'r Cyngor
- Cyflwynwyd cyfrif terfynu'r cytundeb i'r Cyngor ar 7 Medi 2015.
- Manylion y digolledion terfynol a dalwyd
- Cyfeiriad at y gefnogaeth a'r cyngor allanol a ddefnyddiwyd mewn meysydd arbenigol yn ystod y broses gymhleth, a'r
- broses ymgynghori oedd wedi ei dewis.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Prif Swyddog Cyllid a'i dîm am eu gwaith ar y prosiect.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

(i) *yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad*

(ii) *yn cytuno y dylid bwydo'r Terfyniad Cytundeb Prosiect Menter Cyllid Preifat i Weithdai Cyllideb y dyfodol.*

Yn y cyswllt hwn, dychwelodd y cyfarfod i **RAN I**

## **7 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb referniw ar gyfer 2016/17.

Cyflwynwyd y cynnydd diwethaf gyda'r broses gosod cyllideb i Weithdy Cyllideb yr Aelodau ar 26 Hydref 2015, ac roedd manylion y cyflwyniad wedi ei gynnwys o fewn yr adroddiad. Roedd y rhagdybiaethau cynllunio cyllideb diweddaraf wedi eu trafod a'u crynhoi a'r bwch yn y gyllideb yn rhagdybio setliad wedi ei osod ar -4%. Roedd cynigion yn dod i gyfanswm o oddeutu £2 miliwn wedi eu hadnabod ar gyfer eu cynnwys yng Ngham 5 oedd i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Rhagfyr.

Fel arfer cyhoeddir y Setliad Drafft ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gynnar ym mis Hydref, ond ni fyddai'n cael ei gyhoeddi tan 9 Rhagfyr gan na chyhoeddwyd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig tan 25 Tachwedd. Byddai'r Adolygiad Gwariant yn penderfynu ar lefel y Grant Bloc i Gymru. Byddai cyhoeddiad hwyr y Setliad Drafft yn golygu y byddai'n rhaid newid yr amserlen gyllidebu, gan fod yn rhaid i'r Cyngor osod ei chyllideb mewn pryd i ganiatáu cynhyrchu a dosbarthu biliau Treth Cyngor ym mis Mawrth.

Llythyr oedd Atodiad 2 oddi wrth Lywodraeth Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amlinellu'r amserlen ac yn nodi rhai o'r materion. Mae'r amserlen yn peri rhai risgiau os yw gwerthoedd y setliad yn newid yn sylweddol neu os oes problemau wrth gytuno ar y gyllideb yn genedlaethol, ac roedd hyn yn cael ei adolygu'n gyson.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.

## **8 COFRESTR RISG CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) ar reolaeth y Risg Corfforaethol ac adolygiad Hydref 2016 i'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

Eglurodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol sut y byddai'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei monitro a'i rheoli Mae'n cynrychioli adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Corfforaethol er mwyn ystyried sut y mae'r Risg Corfforaethol yn cael ei reoli o fewn yr Awdurdod.

Cytunwyd ar fersiwn wedi ei ddiweddarau'n swyddogol o'r Cofrestr Risg Corfforaethol gan Gyfarfod Briffio'r Cabinet yn Hydref, 2015, a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 10 Rhagfyr 2015. Hysbysodd yr adroddiad y Pwyllgor am adolygiad o fethodoleg rheoli'r Risg Corfforaethol o safbwynt Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.



Adolygwyd y Gofrestr yn swyddogol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Byddai'r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn cael gwybod am unrhyw risgiau cynyddol neu newydd fel byddent yn cael eu hadnabod, a byddai'r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn penderfynu os dylid cynnwys risg yn y Gofrestr. Yn dilyn adolygiad ffurfiol, byddai'r ddogfen sydd wedi'i hadolygu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Byddai'r gweithredoedd a nodir er mwyn delio â Risgiau Corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaethau, lle y bo'n briodol, a fyddai'n galluogi i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad fonitro'r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â darparu'r digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn ystyried ein gwaith gan ddefnyddio pum egwyddor datblygu cynaliadwy, a bydd angen adolygu'r modd y byddwn yn ystyried a rheoli risg yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal fel rhan o weithrediad y Ddeddf newydd sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016, a bydd yr aelodau'n cyfrannu'n llawn at hyn.

Roedd adroddiad i fod i gael ei gyflwyno i gyfarfod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ym mis Rhagfyr i gyflwyno sut y gallai Archwilio ymgorffori gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gwaith.

Yn ystod trafodaethau, mynegodd Aelodau bryderon ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chafwyd cadarnhad bod nifer o reolaethau yn eu lle yn cynnwys nifer o gamau gweithredu. Roedd cydweithrediad rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ddinbych yn digwydd yn gyson er mwyn lleihau'r effaith ar Sir Ddinbych.

Sicrhodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd bod y tri mater a godwyd gan Swyddog y Bwrdd Iechyd a fynychodd gyfarfod Cyngor diweddar bellach oll o fewn Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol Archwilio. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- (i) Gofal Sylfaenol – 17 Rhagfyr 2015 Pwyllgor Archwilio Cymunedau
- (ii) Datblygiadau'r Dyfodol – Ysbyty'r Royal Alexandra, Y Rhyl – 26 Tachwedd, 2015 Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
- (iii) Adroddiad HASCASS – 25 Chwefror 2016 Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi sut y rheolir Risg Gorfforaethol o fewn yr Awdurdod

## **9 YMGYNGHORIAD CENEDLAETHOL YNGHYLCH RHYDDID GWYBODAETH**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a oedd yn nodi manylion ymateb tebygol Sir Ddinbych i ymgynghoriad ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Amlinellodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol fwriadau a darpariaethau'r Ddeddf. Roedd cylch gorchwyl y Comisiwn Annibynnol ar Ryddid Gwybodaeth wedi ei osod gan Swyddfa'r Cabinet. Roedd manylion y rôl a chylch gwaith y Comisiwn i adolygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi ei ddarparu.

Roedd manylion am yr ymateb, a goladwyd gan Sir Ddinbych i Gwestiwn 6, a oedd wedi ei ystyried i gynrychioli'r mater mwyaf perthnasol ar gyfer y Cyngor, wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad.

Roedd y Cyngor wedi darganfod bod sawl cais yn golygu oriau lawer o waith. Yn ogystal, gall mynd ati i olygu dogfennau gymryd sawl awr a hyd yn oed rai dyddiau mewn sawl achos, ond ar hyn o bryd, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu inni gynnwys y gwaith hwn o fewn y terfyn amser.

Eglurwyd y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn annog diwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gynnwys darpariaeth fel y gall Awdurdodau Cyhoeddus godi ffi mewn enw o tua £20, am bob cais. Cynghorir hefyd bod y terfyn addas (adran 12) yn cael ei leihau o 18 awr i 10 awr, ac yn cynnwys yr amser a dreulir ar olygu dogfennau. Credwyd y byddai cyflwyno'r newidiadau hyn yn lleihau'r baich ar Awdurdodau Cyhoeddus i lefel fwy ymarferol a chymesur tra bo hawliau statudol y cyhoedd i weld gwybodaeth yn parhau.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi ymateb arfaethedig y Cyngor i'r ymgynghoriad.***

**Ar y pwynt hwn (11.55 am) cafwyd egwyl o 10 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.05pm**

## **10 CYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi diweddariad ar fabwysiadu cyfansoddiad model newydd i Gymru yn y dyfodol.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn bod unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu hystyried yn gyntaf cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

Cyfeiriodd Pennaeth Y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaeth Democrataidd at adroddiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn ystyried newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cyfansoddiad, cynigion ynglŷn â dirprwyo penderfyniadau i aelodau'r Cabinet a newidiadau i'r Rheolau Cyflogi Swyddogion. Roedd yr adroddiad hwn yn ceisio barn yr aelodau ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion. Mae'r Cynllun arfaethedig, Atodiad 1, yn adlewyrchu newidiadau yn strwythur uwch reolwyr y Cyngor a'r trosglwyddiad mewn

cyfrifoldebau sydd wedi digwydd o ganlyniad. Byddai cymeradwyaeth y Cyngor o'r Cynllun yn cael ei geisio ym mis Rhagfyr er mwyn sicrhau bod dirprwyo swyddogaethau gweithredol wedi eu hawdurdodi'n addas.

Roedd Gweithgor y Cyfansoddiad wedi ystyried y codau a'r protocolau a gynhwysir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad ym mis Hydref. Roedd y Gweithgor wedi ystyried yn fanwl y Protocol ar berthnasau Swyddog/Aelodau, ac wedi cynnwys fersiwn ddiwygiedig o'r protocol fel Atodiad 2 i'r adroddiad.

Roedd y Pwyllgor eisoes wedi ystyried newidiadau posib i'w gylch gorchwyl ei hun, megis y meysydd gwaith y gellid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Yn y pen draw, barn y Pwyllgor oedd nad oedd am drosglwyddo meysydd gwaith i'r Pwyllgor hwnnw. Fodd bynnag, trafodwyd materion megis rheoli risg a lle'r oedd pryder y byddai modd dyblygu gwaith o safbwynt rôl y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Archwilio. Mae cylch gorchwyl diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor hwn ynghlwm fel Atodiad 3, sy'n darparu fersiwn wedi'i diweddarau ac yn adlewyrchu'r trafodaethau hynny.

Byddai Gweithdy Aelodau yn briffio'r aelodaeth ehangach ar y newidiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ac yn ceisio eu barn, cyn adrodd i'r Cyngor yn Chwefror 2016 er mwyn cael cymeradwyaeth i'r Cyfansoddiad diwygiedig.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad cyn ymgynghori'n ehangach gydag Aelodau

## **11 RHEOLI'R FFLYD GORFFORAETHOL - ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol adroddiad (a gylchredwyd o flaen llaw) a hysbysodd y Pwyllgor am Archwiliad Mewnol diweddar ar Reoli Fflyd Gorfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd "Isel".

Cyflwynodd Pennaeth yr Adain Archwilio Mewnol yr adroddiad oedd yn ceisio barn y Pwyllgor ar adroddiad yr Archwiliad Mewnol, a chytundeb ar y sicrwydd bod y Cynllun Gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu yn effeithlon o fewn yr amserlen a gytunwyd arni.

Roedd adroddiad llawn yr Archwiliad Mewnol wedi ei gynnwys fel Atodiad 1, ac roedd y materion allweddol oedd yn codi o'r adroddiad yn cynnwys:-

- Polisi Cludiant sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad;
- Yr angen i wella cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth
- Angen gwelliannau i rai prosesau, gweithdrefnau a pholisïau o fewn y gwasanaeth
- Angen ystyried o ddifrif buddsoddi mewn system reoli fflyd newydd
- Gwelliannau angenrheidiol pan fydd gweithwyr yn cael eu penodi, er mwyn sicrhau bod eu cymhwysedd i yrru yn cael ei wirio yn ystod y broses recriwtio
- Sicrhau bod gwersi a ddysgir bob amser yn cael eu hystyried mewn achos o ddigwyddiadau a methiannau agos, a

- Gwelliannau sydd eu hangen i reoli tanwydd.

Cadarnhawyd bod “cyfarfod cynnydd” wedi ei gynnal cyn cyhoeddi'r adroddiad archwiliad terfynol gyda Phennaeth Gwasanaethau Phrifyrdd ac Amgylcheddol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Aelod Arweiniol y Cabinet ac uwch reolwyr, i drafod yr adroddiad archwilio a chytuno ar Gynllun Gweithredu.

**PENDERFYNWYD :-**

- *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.*
- *y byddai diweddariad llafar yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nesaf ym mis Ionawr 2016 ac y byddai cyflwyniad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth.*

**12 HUNANASESIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod a gynhelir ar 27 Ionawr 2016.

**13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd o flaen llaw) i'w ystyried.

27 Ionawr 2016:-

- (i) Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol – Adroddiad Hunanasesiad
- (ii) Adroddiad Blynyddol AGGCC (i'w gadarnhau).
- (iii) Rhan II - Adroddiad Archwilio Mewnol - Ysgol Mair
- (iv) Adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Fflyd Gorfforaethol (adroddiad llafar)

23 Mawrth 2016:-

- (i) Adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Fflyd Gorfforaethol (adroddiad ysgrifenedig)

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.15pm.**

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 15 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 15 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Ionawr 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid

**Teitl:** Proses y Gyllideb 2016/17

---

**1. Am beth y mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses i gyflenwi'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?**

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf a rhoi sylwadau fel sy'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn y broses o bennu'r gyllideb gerbron gweithdy cyllideb yr aelodau ar 14 Rhagfyr – y trydydd mewn cyfres o weithdai cyllideb a gynhaliwyd yn ystod yr hydref a'r 16eg gweithdy fel rhan o'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd.

Yn ystod y gweithdai cafodd nifer o gynigion arbedion gwahanol eu hystyried ac ym mhob gweithdy cyflwynwyd asesiad o'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol diweddaraf a'r cyd-destun ehangach. Fel y nodwyd eisoes yn ystod proses y gyllideb, yr elfen fwyaf arwyddocaol yng nghyllid net y cyngor yw lefel y setliad ariannol y mae'r cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ac felly gall newidiadau canrannol bychan yn lefel y setliad gael effaith ariannol sylweddol.

Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a thrwy hynny y Setliad Dros Dro i lywodraeth leol, yn hwyrach nag arfer eleni oherwydd amseriad Adolygiad o Wariant yr hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cafodd hyn ei ystyried yn y broses o gynllunio'r gyllideb ac o ganlyniad cyflwynwyd pecyn o gynigion i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr (cyn dyddiad cyhoeddi'r Setliad Dros Dro). Yn bwysig iawn, roedd y pecyn (cyfanswm o £1.2m) yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd ac addasiadau technegol ond nid oedd yn cynnwys cynigion i dorri gwasanaethau a chodi taliadau.

Roedd y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015/16 yn cynnig gostyngiad ariannol o 3.6% i gyllideb y cyngor, sydd gyfwerth â £5.3m. Awgrymwyd y

byddai'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn waeth ac felly, cynlluniodd y cyngor ar gyfer gostyngiad o -4% (cyfwerth â gostyngiad o tua £5.6m). Ynghyd â'r pwysau o ran costau chwyddiant sydd yn rhaid i'r cyngor eu hariannu a chan ganiatáu amcangyfrif ar gyfer amddiffyn cyllideb yr ysgolion, cyfrifwyd bod bwlch o £8.0m yn y gyllideb ar gyfer 2016/17.

Er 2011 cafwyd addewid gan y gweinidogion y bydd cyllidebau ysgolion yn cael eu 'gwarchod'. Awgrymwyd mai'r fecanwaith ar gyfer hyn yw bod awdurdodau lleol yn cynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn uwch na'r 'grant bloc' refeniw i Gymru. Mae arian refeniw i Gymru wedi cynyddu 0.85% ac felly er mwyn cydymffurfio â'r polisi gwarchod gofynnol, byddai'n rhaid i'r cyngor gynyddu cyllidebau'r ysgolion cyfanswm o 1.85%. Mae'r lefel hwn o warchodaeth ddwywaith yr hyn a ragdybiwyd (a oedd yn seiliedig ar ffigwr y llynedd) ac mae'n arwain at gynnydd ariannol i'r ysgolion o £1.173m, cyn gwneud unrhyw addasiadau yn ôl nifer y disgyblion.

Roedd y Setliad a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr yn llawer gwell na'r disgwyl a chafwyd gostyngiad ariannol cyffredinol i lywodraeth leol o -1.4% a gostyngiad o -1.2% i Sir Ddinbych. Roedd y gostyngiadau ar draws cynghorau Cymru yn amrywio o -0.1% (Caerdydd) i -4.1% (Powys) ac roedd yr effaith yn gyffredinol yn waeth yn y siroedd gwledig. Cafodd mecanweithiau arian gwaelodol blaenorol eu dileu o'r Setliad gan arwain at yr amrediad eithaf eang hwn.

Daw tua thri-chwarter o gyllid net y cyngor drwy'r Setliad felly bydd newidiadau canrannol bychan bob amser yn cael effaith sylweddol. Golyga setliad ariannu'r cyngor o -1.2% fod y gostyngiad o £3.9m o ran cyllid yn llai na'r disgwyl, sef gostyniad o -4%.

Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth adroddiad a gyflwynwyd gerbron y cyngor llawn nodi sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb a'r rhagdybiaethau ac awgrymwyd bwlch o £2m yn y gyllideb. Cyfrifwyd y bwlch hwn ar sail nifer o ragdybiaethau sydd wedi newid o ganlyniad i'r Setliad Dros Dro. Cafodd y rhain eu hesbonio'n fanwl yng ngweithdy cyllideb yr aelodau ar 14 Rhagfyr a cheir crynodeb isod:

	<b>Cyn y Setliad</b>	<b>Ar ôl y Setliad</b>	<b>Effaith '000</b>
<b>Cyllid Setliad</b>	-4%	-1.20%	£3,884
Treth y Cyngor	2.75%	1.50%	<b>-£551</b>
<b>Cyfanswm</b>			<b>£3,333</b>
Bwlch Presennol yn y Gyllideb	£2,000k	0	£2,000
Amddiffyniad Ychwanegol i'r Ysgolion	0	£1,173k	£1,173
Lleihad ar sail Demograffeg Disgyblion	<b>-£320k</b>	0	<b>-£320</b>
<b>Cyfanswm</b>			<b>£2,853</b>

<b>Sefyllfa Gyllido</b>			<b>£480</b>
-------------------------	--	--	-------------

Mae'r newidiadau yng ngwerth y Setliad yn caniatáu ar gyfer cynnig i ostwng lefel y cynnydd arfaethedig i Dreth y Cyngor o 2.75% i gyfartaledd o 1.5%. Bydd hyn yn arwain at leihad o £551k yng nghyllid y Cyngor ond bydd yn golygu y caiff rhai o fuddion y Setliad eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r rheini sy'n talu Treth y Cyngor. Er gwaethaf sawl blwyddyn o godiadau isel, mae Treth y Cyngor Sir Ddinbych yn eithaf uchel o'i chymharu ag eraill yng Nghymru a bydd y codiad lefel is arfaethedig o gymorth i unioni'r sefyllfa. Yn y gweithdy cyllideb ym mis Rhagfyr, roedd yr aelodau yn gytûn na ddylai'r codiad yn Nhreth y Cyngor fod yn is na 1.5%.

Nid yw'r cynigion a nodir uchod yn gofyn am arbedion pellach o'r gwasanaethau yn ystod 2016/17. Cafodd arbedion o £5.2m eisoes eu nodi yng nghyfnodau blaenorol y broses ddwy flynedd.

Byddai rhoi'r rhagdybiaethau hyn ar waith yn arwain at sefyllfa gyllido gadarnhaol o £480k. Fodd bynnag, rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd gostyngiadau pellach yn y blynyddoedd i ddod. Mae Setliad 2016/17 yn well na'r disgwyl ond setliad ar gyfer blwyddyn yw hwn heb unrhyw awgrym ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai, gobeithir y caiff setliadau dibynadwy ar gyfer sawl blwyddyn eu darparu ond tan hynny, nid oes canllawiau cynllunio cadarn ar gael. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol gan ragdybio gostyngiad o 3% yn y setliad a chynnydd o 2.75% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r senario hwn yn arwain at fwllch o ymron i £6m yn y gyllideb fesul blwyddyn. Hyd yn oed petai'r gyllideb yn sefydlog yn ariannol yn 17/18, byddai angen ariannu pwysau o dros £3m. Felly, ni ddylai'r cyngor ymrwymo'r cyllid sydd ar gael yn 2016/17 i unrhyw gynigion hirdymor y byddai'n rhaid eu torri yn 2017/18. Ceir crynodeb o'r sefyllfa yn y tabl isod:

	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
<b><u>CYLLID</u></b>			
<b>Cyfanswm y Cyllid</b>	<b>185,056</b>	<b>182,104</b>	<b>179,312</b>
<b><u>GWARIANT</u></b>			
<b>Cyllideb Sylfaenol wedi'i chario ymlaen</b>	<b>184,756</b>	<b>184,576</b>	<b>187,939</b>
<b>PWYSAU:</b>			
Chwyddiant (ac eithrio Ysgolion)	2,899	1,969	1,969
Amddiffyn Ysgolion	1,173	1,194	1,217
Buddsoddiad mewn Blaenoriaethau	250	200	
Trosglwyddiadau i mewn/allan o'r Setliad	1,036		
<b>ARBEDION / ADDASIADAU:</b>			
Camau 1-5	(5,218)		
Addasiad Net Demograffeg Ysgolion	(320)		
<b>Cyfanswm y Gwariant</b>	<b>184,576</b>	<b>187,939</b>	<b>191,125</b>
<b>Diffyg Cyllid / (Ar gael)</b>	<b>(480)</b>	<b>5,835</b>	<b>11,813</b>

Hefyd, mae sawl risg yn parhau yn y Setliad presennol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o grantiau refeniw nad ydynt wedi'u cadarnhau hyd yma ac mae'n bosibl y daw cyfarwyddyd pellach i 'warchod' gofal cymdeithasol yn ariannol ond nid yw hyn wedi'i ddiffinio eto. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cyngor bennu cyllidebau a Threth y Cyngor ar sail setliad dros dro. Er bod darpariaeth gyfreithiol i ganiatáu hyn, mae risg, er enghraifft, petai ffrydiau grant refeniw yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, y gellid cael addasiad ariannol i'r setliad terfynol ac mae felly'n ddoeth i gael clustog a fydd yn gallu amsugno hyn heb effeithio ar y sylfaen dreth.

Ni fydd Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi hyd 2 Mawrth 2016. Cafwyd sicrwydd na fyddai unrhyw symudiad negyddol rhwng gwerthoedd y Setliad drafft Dros Dro a'r Setliad Terfynol. Bydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn mynd gerbron y Senedd ar 8 Mawrth.

Daw'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd i ben pan gaiff cyllideb 2016/17 ei phennu a bydd y broses wedi cyflawni'r hyn a fwriadwyd – sef darparu cyllideb ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd. Bydd y gwaith o fonitro perfformiad y gyllideb yn parhau i gael ei adrodd gerbron y cabinet fel arfer a sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Torri'r Got yn ôl y Brethyn i fonitro effaith penderfyniadau cyllidebol a gaiff eu gwneud fel rhan o'r broses.

Caiff proses gyllideb newydd ei datblygu ar gyfer 2017/18.

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflenwi'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sail i weithgaredd ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint y bydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd angen arbedion pellach yn y gwasanaethau yn sgil y cynigion hyn. Mae'r cynigion yn cynnwys cyllid net ychwanegol o £853k ar gyfer ysgolion.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl gynigion perthnasol.

**8. Pa ymgynghori a gafwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori gynhwysfawr a gynhaliwyd i gyflenwi cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cam olaf proses gyllidebol ddwy flynedd o hyd Rhyddid a Hyblygrwydd. Bu'n broses anodd ar adegau a bu'n rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth yr arbedion – dros 80% - wedi bod yn arbedion effeithlonrwydd neu foderneiddio ac felly ni chafwyd effaith sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus.

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn darparu cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel setliadau ariannol y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud y gwaith cynllunio ariannol, dan amodau sydd eisoes yn anodd, hyd yn oed yn fwy heriol. Er bod setliad refeniw 2016/17 yn well na'r hyn yr oedd y cyngor yn ei ddisgwyl ac mae hyn yn fater i'w groesawu, mae diffyg unrhyw awgrym o gynllunio ariannol ystyrlon ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gobeithio y byddir yn mynd i'r afael â hyn yn dilyn etholiadau mis Mai 2016 oherwydd mae'r ansicrwydd a'r amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn sydd wedi dod yn norm er 2013, yn peri risg sylweddol i gyflenwi cyllidebau yn y dyfodol.

Er nad yw'r union lefelau yn hysbys, mae'n debygol y bydd toriadau cyllidebol i'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ceisio bod yn effeithlon ac arbed arian, efallai na fydd hyn yn ddigon yn y blynyddoedd i ddod. Bydd penderfyniadau cyllidebol yn dod yn anos ac mae'n debygol y bydd angen mwy o amser paratoi i'w cyflenwi.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r broses gyllidebol ei hun yn fesur rheoli risg â'r nod yw nodi, asesu a chytuno ar gynigion cyllidebol mewn ffordd amserol a gynlluniwyd.

## **11. Hawl i gymryd y Penderfyniad**

Dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2016
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Cynghorydd Julian Thompson-Hill
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Prif Swyddog Cyllid
<b>Teitl:</b>	<b>1. Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) 2016/17 a Dangosyddion Darbodus 2016/17 i 2018/19 (Atodiad 1)</b> <b>2. Adroddiad Diweddarau Rheoli Trysorlys (RhT) 2015/16 (Atodiad 2)</b>

## **1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 Mae'r DSRhT (Atodiad 1) yn dangos sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gosod y polisiâu ar gyfer gweithredu'r swyddogaeth RhT. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y strategaeth hon ac ar y Dangosyddion Darbodus. Mae'r Adroddiad Diweddarau ar Reoli'r Trysorlys (Atodiad 2) yn rhoi manylion am weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16.
- 1.2 Dylid nodi bod y ffigurau a gynhwysir yn y DSRhT yn rhai drafft a byddant yn cael eu diweddarau cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn seiliedig ar y Cynllun Cyfalaf diweddaraf a Chynllun Busnes Stoc Tai ym mis Chwefror 2016.

## **2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys (y "Cod RhT SSCCCh") yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r DSRhT a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adolygu'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2016. Ar ben hynny, rhan o rôl y Pwyllgor yw derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau RhT ddwywaith y flwyddyn.

## **3 Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn adolygu DSRhT ar gyfer 2016/17 a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19 (Atodiad 1).
- 3.2 Bod aelodau'n nodi'r adroddiad diweddarau ar y gwaith o Reoli Trysorlys (Atodiad 2).

## **4 Manylion yr Adroddiad**

### **Cefndir**

- 4.1 Mae RhT yn golygu edrych ar ôl arian y Cyngor sy'n rhan hanfodol o waith y Cyngor oherwydd bod oddeutu £0.5bn yn mynd drwy gyfrif banc y Cyngor bob blwyddyn.
- 4.2 Ar unrhyw adeg, mae gan y Cyngor o leiaf £10miliwn mewn arian parod, felly mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni'r gyfradd ddychwelyd gorau posibl heb roi'r arian mewn perygl a dyna pam ein bod yn buddsoddi arian gyda nifer o sefydliadau ariannol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael yr arian yn ôl pan fyddwn ei angen (hylifedd);
- gwneud yn siŵr ein bod yn cael cyfradd adennill da (arenillion).

### **DSRhT 2016/17**

- 4.3 Mae DSRhT ar gyfer 2016/17 wedi'i nodi yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgaredd RhT y Cyngor ac yn dangos bod benthycu'r Cyngor yn fforddiadwy.

### **Dangosyddion Darbodus**

- 4.4 Mae dangosyddion Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar y bidiau cyfalaf arfaethedig diweddaraf a dyraniadau bloc a bydd y rhain yn cael eu diweddarau cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 23 Chwefror 2016.
- 4.5 Mae'r dangosyddion Cyfrif Refeniw Tai wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf o'r Cynllun Busnes Stoc Tai ond byddant yn cael eu hadolygu cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor ar ôl cytuno ar y Cynllun Busnes Stoc Tai terfynol.
- 4.6 Mae'r Dangosyddion Darbodus unigol a argymhellwyd i'w cymeradwyo wedi'u nodi yn Atodiad 1, A.

## **5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

- 5.1 Mae strategaeth RhT effeithlon yn galluogi'r Cyngor i leihau ei gostau benthycu a rhyddhau cyllid ar gyfer ei flaenoriaethau buddsoddi.

## **6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn codi o ganlyniad i bennu Dangosyddion Darbodus. Pwrpas y Strategaeth RhT yw cael yr enillion gorau o fewn fframwaith risg a reolir yn briodol.



**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Nid oes angen hyn fel rhan o'r adroddiad hwn.

**8 Pa ymgynghori a wnaed?**

8.1 Paratowyd Cynllun Cyfalaf a Chyllideb Refeniw'r Cyngor mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pwyllgorau Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor.

8.2 Bydd y Cynllun Busnes Stoc Tai, cyllidebau refeniw a chyfalaf yn cael eu cyflwyno i aelodau. Ymgynghorir gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych ar y cynigion.

8.3 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'i ymgynghorwyr RhT, Arlingclose Ltd

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae RhT yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mabwysiadodd y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig SSCCCh ar RhT (Tach 11) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2012. Mae'n ofyniad y Cod hwnnw i'r Cyngor gymeradwyo DSRhT pob blwyddyn ariannol.

**10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae RhT yn ei hanfod yn risg fel yr amlinellwyd yn Natganiad y Strategaeth. Mae gan y Cyngor bolisi rheoli risg ond mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu'r gofyniad i awdurdodau lleol bennu Dangosyddion Darbodus ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (SSCCCh).

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Denbighshire County Council**

**Treasury Management Strategy Statement  
and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19**

**Contents**

- 1. Background**
- 2. Treasury Position**
- 3. Investment Strategy**
- 4. Borrowing Strategy**
- 5. Debt Rescheduling**
- 6. MRP Statement 2016/17**
- 7. Reporting Treasury Management Activity**
- 8. Other Items**

**Annexes**

- A. Prudential Indicators**
- B. Interest Rate Outlook**
- C. Glossary**

# Treasury Management Strategy Statement and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19



## 1 Background

- 1.1 The Council is responsible for its Treasury Management decisions and activity which involves looking after the Council's cash. This is a vital part of the Council's work because approximately £0.5bn passes through the Council's bank account every year.
- 1.2 On 28 February 2012 the Authority adopted the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy's *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice 2011 Edition* (the CIPFA Code) which requires the Authority to approve a treasury management strategy statement (TMSS) before the start of each financial year.
- 1.3 In addition, the Welsh Government (WG) issued revised *Guidance on Local Authority Investments* in March 2010 that requires the Authority to approve an investment strategy before the start of each financial year.
- 1.4 This report fulfils the Authority's legal obligation under the *Local Government Act 2003* to have regard to both the CIPFA Code and the WG Guidance.
- 1.5 The purpose of the TMSS is to set the:
  - Treasury Management Strategy for 2016/17
  - Annual Investment Strategy for 2016/17
  - Prudential Indicators for 2016/17, 2017/18 and 2018/19 (**Annex A**)
  - Minimum Revenue Provision (MRP) Statement

## 2 Treasury Position

- 2.1 The levels of the Council's borrowing and investment balances over the last three years are shown in the graphs below. The first chart shows the Council's borrowing has increased over the course of the last twelve months because we borrowed £40m from the Public Works Loan Board (PWLB) on 02/04/15 to buy ourselves out of the subsidy scheme to become self-financing. The second chart shows a decrease in the amount of money we have to invest because we terminated the PFI contract on the Council offices in Ruthin on 04/09/15 and as planned, we used a significant proportion of our investment balances to achieve this.

**Treasury Management Strategy Statement  
and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19**



**3 Investment Strategy**

3.1 Both the CIPFA Code and the WG Guidance require the Authority to invest its funds prudently, and to have regard to the security and liquidity of its investments before seeking the highest rate of return, or yield. The Authority’s objective when investing money is to strike an appropriate balance between risk and return, minimising the risk of incurring losses from defaults and the risk of receiving unsuitably low investment income.

## Treasury Management Strategy Statement and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19

- 3.2 Given the increasing risk and continued low returns from short-term unsecured bank investments, the Authority will consider more secure investments such as reverse repurchase agreements (REPOs) and covered bonds as detailed in paragraph 3.3 below.
- 3.3 The Authority may invest its surplus funds with any of the counterparty types in table 1 below, subject to the cash limits (per counterparty) and the time limits shown.

**Table 1: Approved Investment Counterparties and Limits**

Credit Rating	Banks / Building Societies Unsecured	Banks / Building Societies Secured	Government / Local Authorities	Corporates	Registered Providers
UK Govt	n/a	n/a	£Unlimited 50 years	n/a	n/a
AAA	£5m 5 years	£10m 20 years	£8m 50 years	£5m 20 years	£5m 20 years
AA+	£5m 5 years	£10m 10 years	£8m 25 years	£5m 10 years	£5m 10 years
AA	£5m 4 years	£10m 5 years	£8m 15 years	£5m 5 years	£5m 10 years
AA-	£5m 3 years	£10m 4 years	£8m 10 years	£5m 4 years	£5m 10 years
A+	£5m 2 years	£10m 3 years	£8m 5 years	£5m 3 years	£5m 5 years
A	£5m 13 months	£10m 2 years	£8m 5 years	£5m 2 years	£5m 5 years
A-	£5m 6 months	£10m 13 months	£8m 5 years	£5m 13 months	£5m 5 years
BBB+	£5m 100 days	£10m 6 months	£8m 2 years	£5m 6 months	£5m 2 years
BBB or BBB-	£5m next day only	£10m 100 days	n/a	n/a	n/a
None	£1m 6 months	n/a	£8m 25 years	£5m 5 years	£5m 5 years
Pooled funds	£8m per fund				

**Credit Rating:** Investment decisions are made by reference to the lowest published long-term credit rating from Fitch, Moody's or Standard & Poor's. Where available, the credit rating relevant to the specific investment or class of investment is used, otherwise the counterparty credit rating is used.

**Banks Unsecured:** Accounts, deposits, certificates of deposit and senior unsecured bonds with banks and building societies, other than multilateral development banks. These investments are subject to the risk of credit loss

## **Treasury Management Strategy Statement and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19**

via a bail-in should the regulator determine that the bank is failing or likely to fail. Unsecured investment with banks rated BBB or BBB- are restricted to overnight deposits at the Authority's current account bank [Natwest Bank Plc].

**Banks Secured:** Covered bonds, reverse repurchase agreements (REPOs) and other collateralised arrangements with banks and building societies. These investments are secured on the bank's assets, which limits the potential losses in the unlikely event of insolvency, and means that they are exempt from bail-in.

**Government:** Loans, bonds and bills issued or guaranteed by national governments, regional and local authorities and multilateral development banks. These investments are not subject to bail-in, and there is an insignificant risk of insolvency. Investments with the UK Central Government may be made in unlimited amounts for up to 50 years.

**Corporates:** Loans, bonds and commercial paper issued by companies other than banks and registered providers. These investments are not subject to bail-in, but are exposed to the risk of the company going insolvent. Loans to unrated companies will only be made as part of a diversified pool in order to spread the risk widely.

**Registered Providers:** Loans and bonds issued by, guaranteed by or secured on the assets of Registered Providers of Social Housing, formerly known as Housing Associations. These bodies are tightly regulated by the Welsh Government and, as providers of public services, they retain a high likelihood of receiving government support if needed.

**Pooled Funds:** Shares in diversified investment vehicles consisting of any of the above investment types, plus equity shares and property. These funds have the advantage of providing wide diversification of investment risks, coupled with the services of a professional fund manager in return for a fee. Short-term Money Market Funds that offer same-day liquidity and very low or no volatility will be used as an alternative to instant access bank accounts.

- 3.4 Natwest is the Council's banker and will continue to be used for operational and liquidity purposes by transferring cash in and out of the instant access account as required even if its credit rating falls below those shown in the table above.
- 3.5 For a group of banks under the same ownership, the banking group limit is equal to the individual bank limit.
- 3.6 Credit ratings are obtained and monitored by the Authority's treasury advisers, who will notify changes in ratings as they occur. Where an entity has its credit rating downgraded so that it fails to meet the approved investment criteria then:

## Treasury Management Strategy Statement and Investment Strategy 2016/17 to 2018/19

- no new investments will be made,
- any existing investments that can be recalled or sold at no cost will be, and
- full consideration will be given to the recall or sale of all other existing investments with the affected counterparty.

3.7 The Authority understands that credit ratings are good, but not perfect, predictors of investment default. Full regard will therefore be given to other available information on the credit quality of the organisations in which it invests, including credit default swap prices (the cost of banks insuring themselves against default), financial statements, information on potential government support and reports in the quality financial press. No investments will be made with an organisation if there are substantive doubts about its credit quality, even though it may meet the credit rating criteria.

